

YSGOL RHIWLAS

Prosbectws / Prospectus
2017/18

**Ysgol Gynradd Rhiwlas
Waun Pentir,
Rhiwlas
Bangor
Gwynedd
LL57 4EH**

Pennaeth: Iwan A Davies M.A B.Add.

Ffôn: (01248) 352483
e-bost: pennaeth@rhiwlas.gwynedd.sch.uk
www.ysgolrhiwlas.cymru



Annwyl Riant,

Pleser o'r mwyaf ar ran Llywodraethwyr ac athrawon Ysgol Rhiwlas yw cyflwyno i'ch sylw y llyfryn hwn. Cyflwynir yn y llawlyfr wybodaeth i rieni, disgyblion a darpar ddisgyblion am waith a gweinyddiad yr ysgol.

Rydym yn gwerthfawrogi a pharchu ei disgyblion ac yn credu y dylai eu hamser yn yr ysgol fod yn werthfawr a boddhaus.

Credwn ein bod yn cynnig addysg dda i'n plant mewn awyrgylch hapus a diogel. Rydym yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gant yn ogystal ac addysg eang a chytbwys o fewn awyrgylch gyfeillgar, warchodol a chydweithredol. Amlyga awyrgylch bositif, cwrtais a chyfeillgar yr ysgol ei hun yn syth wrth gerdded trwy prif fynedfa'r ysgol.

Partneriaeth yw addysg rhwng ysgol a rhiant er budd ein plant. Mae eich cefnogaeth chi fel rhieni yn amhrisiadwy ac fe anogir chwi i ymddiddori yn addysg eich plentyn gan sicrhau ei ddatblygiad llawn yn gymdeithasol yn ogystal ac addysgol.

Yn gywir

Iwan A. Davies

Dr Alexandra Rhys

Pennaeth

Cadeirydd y Corff Llywodraethol

CYNNWYS

1. Manylion am yr ysgol
2. Trefniadaeth yr ysgol
3. Y Cwricwlwm
4. Cyswllt a'r cartref
5. Atodiadau

MANYLION YR YSGOL

Ysgol Gynradd Rhiwlas, Waun Pentir, Rhiwlas, BANGOR, Gwynedd. LL57 4EH
Ffôn: (01248) 352483

Pennaeth: Mr Iwan A Davies M.A , B.Add.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Dr Alexandra Plows

Staff Dysgu:	Iwan Davies	Pennaeth mewn gofal dosbarth
	Ceri Jones	Athrawes ddosbarth (secondiad)
	Sioned Hywel Rowlands	Athrawes rhan amser

Y Llywodraethwyr:

Cadeirydd: Alexandra Plows, 7 Carreg y Gath, Rhiwlas
Cynrychiolydd yr A.A.LL.

Is-Gadeirydd: Mr Steffan Job, 34 Bro Rhiwen
Aelod cyfetholedig

Llinos Goosey, *Cynrychiolydd y Staff Dysgu*

Y cyng. Elwyn Jones
Cyngor Gwynedd

Alison Florence , Olive Branch, Pentir
Cynrychiolydd rhieni

Mrs Caren Rowlands, Y Goeden Eirin, Rhiwlas
Cynrychiolydd rhieni

Ceri Owen, 30 Caeau Gleision, Rhiwlas
Cynrychiolydd y Rhieni

Rhian Evans Hill
Cyngor Cymuned

Iwan Davies, *Pennaeth - aelod yn rhinwedd ei swydd*

Mrs Einir Williams, Cefn Coch, Rhiwlas
Cynrychiolydd Staff Ategol

Clerc: Helen Campbell, Waunfawr

Math o Ysgol: Ysgol Gynradd Sirol (Meithrin/Babanod/Iau), dyddiol, ddwyieithog, gyd-addysgol, 3 - 11 oed.

Y Diwrnod Ysgol:

Amseroedd agor a chau'r ysgol

Meithrin 1.00 y.p – 3.00 y.p
Babanod 9:00 y.b. - 3:00 y.p.
Iau: 9:00 y.b. - 3:30 y.p.

Clwb brecwast 8:00y.b. – 8:45 y.b.
Egwyl Boreol: 10:30 y.b. - 10:50 y.b.
Amser Cinio: 12:00 y.p. - 1:00 y.p.
Egwyl Prynhawn: 2:20 y.p. - 2:30 y.p.

Oriau a dreulir ar addysgu (heb gynnwys cydaddoliad, cofrestru, cinio, egwyl)

Meithrin: 10 awr 00 munud yr wythnos
Babanod 21 awr 40 munud yr wythnos
Iau: 24 awr 10 munud yr wythnos

Dyddiadau Tymor yr Ysgol:

Tymor

Hydref 2017 1 Medi 2017 – 22 o Ragfyr 2017

Gwanwyn 2018 8 Ionawr 2018 – 23 o Fawrth 2018

Haf 2018 9 o Ebrill 2018 – 20 o Orffennaf 2018

Gwyliau

30 o Hydref – 3 ydd o Dachwedd (Gwyliau Hanner tymor)

25 o Ragfyr – 5 o Ionawr (Gwyliau Nadolig)

12 – 16 o Chwefror (Hanner tymor)

26 o Fawrth - 6 o Ebrill (Gwyliau Pasg)

7 o Fai (Calan Mai)

28 o Fai – 1 Mehefin (Hanner tymor)

23 o Orffennaf – 31 o Awst (Gwyliau Haf)

Yn ychwanegol i'r uchod bydd 5 diwrnod arall o wyliau i'r plant sef,
diwrnodau hyfforddiant athrawon.

CYFANSODDIAD Y DOSBARTHIADAU

DOSBARTH	OED	ATHRAWES
Meithrin (rhan-amser) Derbyn	3 - 4 oed 4 - 5 oed	Ceri Jones
Blwyddyn 1 Blwyddyn 2	5 - 6 oed 5 - 7 oed	Ceri Jones
Blwyddyn 3 Blwyddyn 4	7 - 8 oed 8 - 9 oed	Mr Iwan Davies/Mrs Sioned Rowlands
Blwyddyn 5 Blwyddyn 6	9 - 10 oed 10 - 11 oed	Mr Iwan Davies/ Mrs Sioned Rowlands

Staff Ategol: Mrs Emma Price - Cymhorthydd dosbarth
Mrs Yvonne Halstead - Cymhorthydd dosbarth
Miss Emma W Hughes - Cymhorthydd dosbarth
Mrs Karen P Clack - Cymhorthydd dosbarth
Ms Shan Jones - Cogyddes
Mrs Margaret Picton - Gofalwraig
Mrs Einir Williams - Anti Amser Cinio

TREFNIADAETH YR YSGOL

2.1 Polisi derbyn plant i'r ysgol

Yr AALL yw'r awdurdod derbyn ar gyfer pob plentyn yng Ngwynedd. Sicrheir lle yn ein hysgol i bob plentyn sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.

Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan-amser ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed. Fe'u derbynnir yn llawn-amser y Medi dilynol.

Bydd llefrith di-dal ar gael i bob plentyn yn yr Adran Babanod.

Nid yw'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am y plant cyn 8:50 y.b.heblaw plant y clwb brechwast.

Os oes rhywun am fod yn hwyr yn casglu'r plant dylid rhoi gwybod i'r ysgol.

Daw goruchwyliaeth athro i ben am 3:00 y.p. i'r Adran Fabanod a 3:30 y.p. yn yr Adran Iau.

Ymweld a'r Ysgol

Mae croeso i rieni ymweld a'r ysgol. Mae'n well trefnu i weld y pennaeth neu athrawon y tu allan i oriau ysgol gan fod ymweliadau dirybudd yn gallu amharu ar wersi dosbarth. Oherwydd rhesymau diogelwch gofynnir i bawb sy'n ymweld a'r ysgol yn ystod y dydd fynd i'r swyddfa yn y lle cyntaf.

Darpar Rien

Caiff darpar rieni eu gwahodd i gysylltu a'r ysgol i drefnu ymweliad yn ystod oriau ysgol, nid yn unig i weld y pennaeth a'r staff, ond i brofi awyrgylch yr ysgol ac i dreulio peth amser yn y dosbarth gyda chyfoedion.

2.2 Presenoldeb

Mae'n bwysig bod pob plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Heb hyn bydd ymdrechion gorau yr athrawon yn cael eu tanseilio ac ni fydd disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Mae diffyg presenoldeb cyson yn tanseilio'r broses addysgol ac yn aml yn arwain at anawsterau addysgol. Mae gan rieni yr hawl i wneud cais am 10 diwrnod o wyliau y flwyddyn, ni allwn awdurdodi mwy na hyn.

Canran presenoldeb yr ysgol -95.5%

Presenoldeb awdurdodedig -4%

Presenoldeb anawdurdodedig -0.5%

Cyfrifoldebau'r Rhieni

O dan adran 36 Deddf Addysg a 1944, mae'n ofynnol i rieni disgyblion o oedran ysgol orfodol sicrhau eu bod yn derbyn addysg amser llawn effeithlon. Y rhieni sy'n

bennaf gyfrifol am sicrhau bod plant yn mynychu, ac yn aros yn yr ysgol. Er mwyn sicrhau presenoldeb da eu plant disgwylir i'r rhieni gydweithredu â'r ysgol drwy:

- gysylltu â'r ysgol, drwy nodyn, ebost neu alwad ffôn, i gadarnhau unrhyw absenoldebau gan nodi'r rheswm.
- beidio â chadw eu plant o'r ysgol heb reswm digonol e.e. salwch;
- sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon erbyn naw o'r gloch;
- sicrhau, os ydynt yn bwriadu mynd ar wyliau gyda eu plant yn ystod cyfnod ysgol, eu bod yn llenwi ffurflen absenoldeb gwyliau. Sylwer mai deng niwrnod ysgol y flwyddyn yn unig a ganiateir ar gyfer gwyliau. **Mae'r Ysgol yn monitor presenoldeb yn fanwl a byddwn yn cysylltu a chwi os yw presenoldeb y disgybl yn syrthio o dan 90%.**

Cyfrifoldebau'r Awdurdod Addysg

Cyflawnir dyletswyddau statudol yr Awdurdod Addysg mewn perthynas â phresenoldeb disgyblion gan y Gwasanaeth Lles Addysg. Ymwelir a'r ysgol unwaith bob hanner tymor gan Swyddog Lles Maes. Ceisia'r gwasanaeth weithredu mewn modd cynhaliol drwy gydweithio â'r ysgol, teuluoedd ac asiantaethau perthynol eraill er mwyn ymdrin â phroblemau presenoldeb.

2.3 **Gwisg Ysgol**



Mae'r rhieni a'r llywodraethwyr wedi penderfynu eu bod yn awyddus fod gwisg ysgol yn bodoli yn yr ysgol – sef crys polo melyn gyda logo yr ysgol, crys chwys glas gyda logo yr ysgol arno a throwsus loncian tywyll. Nid yw'r wisg yn statudol ond gobeithiwn y bydd rhieni yn ein cefnogi trwy sicrhau fod y plant yn gwisgo gwisg ysgol y mwyafrif o'r amser gan y credwn ei fod yn meithrin balchder yn yr Ysgol. Bydd gwisgo gwisg ysgol yn orfodol ar unrhyw driplau oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Gellir prynu y wisg yn TESCO – mae linc ar ein safle we -mae ganddom hefyd drefniant ble bydd rhieni yn rhoi hen siwmperi i'r ysgol pan fyddant wedi mynd rhy fach – bydd rhain ar gael i rieni eraill yn rhad ac am ddim.

Disgwylir i'r plant fod wedi eu gwisgo'n lân a thrwsiadus, a bod eu dillad yn rhai addas i'w gwisgo yn yr ysgol.

Mae disgwyl iddynt hefyd wisgo dillad addas ar gyfer Addysg Gorfforol a chwaraeon, sef crys T, trowsus byr a phymys. Ni ddylent wisgo'r dillad hyn i ddod i'r ysgol yn y bore, ond newid iddynt ar gyfer y wers ac yna newid i'w dillad arferol ar ddiwedd y cyfnod.

Ni ddylid gadael dillad yn yr ysgol dros nos.

Os derbynnir dillad tîm ysgol gan ddisgybl, dylent eu dychwelyd i'r ysgol ar ôl y gêm wedi cael eu golchi.



2.4 **Gofal Personol**

Cyfrifoldeb y plentyn fydd edrych ar ôl ei eiddo personol. Ni ddylai'r plant ddod a theganau i'r ysgol, na gadael eiddo yno dros nos.

Dylai cotiau a dillad fod wedi eu marcio'n glir fel y bydd y plant yn adnabod eu gwisg eu hunain.

Dylai rhieni fod yn rhesymol wrth ganiatáu modrwyau, cadwyni a chlust dlysau i'w plant - ni chaniateir rhai fydd yn peryglu diogelwch, na rhai gwerthfawr. Awgrymir na ddylid gwisgo'r rhain ar ddiwrnod gwersi chwaraeon a nofio.

Os, drwy unrhyw afiechyd, dymuna rhieni i'w plant aros i mewn yn ystod amser chwarae mae gofyn iddynt gysylltu â'r athro/athrawes dosbarth.

2.5 **Arian yn yr Ysgol**

Er mwyn sicrhau na fydd colledion pan adewir yr arian mewn cotiau, bagiau neu ddesg, ni ddylai disgyblion ddod ag arian personol i'r ysgol.

Pan fydd angen i blentyn ddod ag arian i'r ysgol, ee arian nofio, chwaraeon ayyb, awgrymwn y byddai'r gwaith o gadw cyfrifon yn haws pe bai pob plentyn yn dod ag union bres, a'i roi i'r athrawes ddosbarth yn y bore.



Arian Cinio - Cesglir arian cinio ar fore Llun neu fore Gwener, a rhaid rhoi'r union arian mewn amlen ar wahân i unrhyw arian arall gydag enw'r plentyn arni'n glir. Os am dalu gyda siec gofynnwn am siec arwahan i unrhyw arian arall ac wedi ei gwneud yn daladwy i Cyngor Gwynedd.

2.6 **Codi tal am weithgareddau addysgol**

Egwyddor sylfaenol Deddf Addysg 1988 oedd y dylai gweithgareddau addysgol fod yn ddi-dâl i bob disgybl. Serch hynny mae gan yr ysgol hawl statudol i ofyn i rieni gyfrannu tuag at gostau gyda'r dealltwriaeth na fydd unrhyw blentyn yn dioddef anfantais os yw ef/hi yn anabl neu'n anfodlon i gyfrannu.

Y mae'r Corff Llywodraethu yn annog y pennaeth i geisio cyfraniadau gwirfoddol gan rieni er mwyn ceisio sicrhau fod gweithgareddau megis nofio, chwaraeon a theithiau addysgol,



sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol, yn cael eu cynnig i bob plentyn.



Codir tal o £2.50 ar blant am wersi nofio i gyfarfod a'r gost cludiant i Bwll Nofio Bangor.

Codir tal o £90 y flwyddyn gan sicrhau cyfle i nifer fawr o blant sydd a diddordeb mewn chwarae offeryn.

Yr Urdd

Y mae yma adran ysgol o'r Urdd sydd yn cyfarfod yn wythnosol dros fisoedd y Gaeaf. Trefnir gweithgareddau megis chwaraeon athletau, cwisiau a nosweithiau celf ar gyfer yr aelodau.

Plant Blwyddyn 2, 3, 4, 5 a 6 fydd yn cael cyfle i ymaelodi a'r Urdd.

- Cost ymaelodi gyda'r Urdd am y flwyddyn yw £6.00 fel rheol, ond gall hyn newid.

2.7 Cau'r ysgol mewn argyfwng

Mewn argyfwng, efallai bydd rhaid i'r prifathro gau'r ysgol. Gwneir y penderfyniad er lles a diogelwch y disgyblion. Ni fydd unrhyw ddisgybl yn cael ei ryddhau oni bai fod lle diogel ar ei gyfer.

Diogelwch yr Ysgol

Ystyrir iechyd a diogelwch plant ac oedolion yr ysgol yn hynod bwysig. Cedwir yn gaeth at bolisi iechyd a diogelwch yr ysgol.

2.8 Rhoi moddion i blant:

Nid oes hawl gyfreithiol gan athrawon dosbarth i roi moddion i blant ond gall y prifathro ymarfer ei ddisgresiwn. Mewn achlysuron arbennig bydd y pennaeth ar gael i drafod rhoi moddion i blant ar yr amodau canlynol:



- i) nad yw'n bosibl i'r rhiant ddod i'r ysgol i roi'r moddion i'r plentyn.
- ii) bod y plentyn yn ddigon iach i fod yn yr ysgol.
- iii) bod cyfarwyddiadau clir ar sut i weinyddu'r moddion.
- iv) bod rhieni yn derbyn pob cyfrifoldeb ac yn arwyddo llythyr caniatâd..

2.9 Cyfarfodydd Rhieni

Tymor yr Hydref - Cynhelir cyfarfod ar ddechrau'r flwyddyn i ddod i adnabod athro/awes eich plentyn ac i roi gwybodaeth ychwanegol am y plentyn. Cewch adroddiad llafar ar gynnydd eich plentyn. Llunnir "Datganiad Cytunedig" ar y cyd rhwng rhieni plant dosbarth derbyn a'r athrawes ddosbarth.

Tymor y Pasg – ymweliad anffurfiol i weld y gwaith a chael sgwrs gyda'r athro / athrawes

Tymor yr Haf - Ar ddiwedd y tymor, ac yn dilyn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd eich plant gwahoddir rhieni i gyfarfod yr athrawes ddosbarth i drafod cynnwys yr adroddiad.

Gwahoddir rhieni sydd yn poeni am unrhyw fater addysgol neu bersonol, drwy wneud trefniadau o flaen llaw, i ymweld â'r athro/awes i drafod a cheisio datrys y broblem ar y cyd.

2.10 Addysg Iechyd

Fel rhan o raglen addysg iechyd, anogir y disgyblion i ymarfer glendid corfforol a deintyddol ac i gymryd gofal o'u gwallt a'u hewinedd. Anogir hwynt i gymryd rhan mewn chwaraeon ac amrywiaeth o ymarfer corff.

Rhan hanfodol o'r rhaglen addysg iechyd fydd astudiaeth o ddiet a bwyta'n iach, ac oherwydd hynny gwaherddir bwyta melysion a bwydydd 'Junk' eraill yn ystod amser chwarae ac amser cinio. Rhoddir pwyslais hefyd ar sicrhau fod bocsus bwyd disgyblion yn iach – ni chaniateir bocsus bwyd sydd yn cynnwys melysion ac yn y blaen.



Ni chaniateir dod a diod mewn potel wydr, hyd yn oed mewn pecyn cinio am resymau diogelwch. Anogir disgyblion i yfed dwr yn y gwersi mewn poteli sugno – ni chaniateir unrhyw ddiod arall ar fyrddau disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhan o ymgyrch Ysgolion Iach ac felly rhennir ffrwythau yn ystod amser egwyl boreol am bris rhesymol o £1 yr wythnos. Ailgylchynir y gwastraff i ddysgu ein disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol a gwarchod eu hamgylchfyd lleol a byd eang. Anogir pob plentyn i fwyta ffrwythau'n ddyddiol.



Mae'r Cyngor Ysgol yn rhedeg Co-op ffrwythau, llysiau a salad ble gallwch archebu bagiad am £3. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a'r ysgol.

2.11 **Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd**

Mae Ysgol Rhiwlas yn nalgylch Ysgol Dyffryn Ogwen. Ceir cyswllt pendant rhwng ysgolion cynradd y dalgylch a'r ysgol uwchradd hon drwy gydol y flwyddyn. Gwneir hyn er mwyn i'r newid o ysgol fechan fel Ysgol Rhiwlas i Ysgol Dyffryn Ogwen fod mor ddigyffro a mor naturiol a phosibl i'r plentyn.

2.12 **Cyfle Cyfartal**

Sicrheir y datblygir galluoedd bob plentyn fel unigolyn, heb ganiatáu i'w rhyw, hil, anabledd, dosbarth cymdeithasol, crefydd neu unrhyw nodweddion cyffredinol eraill fod yn rhwystr i hynny. Ceir copi o'r polisi yma yn yr ysgol.

2.13 **Clwb gwarchod plant**

Gallwn gynnig clwb gwarchod plant ar safle yr ysgol tan 5 bob nos o'r wythnos. Fodd bynnag codir tal ychwanegol am hyn sef £5 y dydd i bob plentyn. Mae/r gost yn talu am gyflogi staff, lluniaeth ac adnoddau.

Y CWRICWLWM

3.1 NOD AC AMCANION YR YSGOL

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol wedi mabwysiadu'r nod ac amcanion cwricwlaidd canlynol:

Nod

Nod Ysgol Rhiwlas yw sicrhau addysg o'r ansawdd orau bosib i bob plentyn yn unol a'u hoedran, eu gallu a'u diddordebau er mwyn iddynt dyfu yn bersonoliaethau llawn, datblygu ac ymarfer eu holl doniau a chymhwyso eu hunain i fod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog.

Amcanion

1. Creu amgylchfyd ac awyrgylch lle gall plant dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolion hyderus, yn ymwybodol o les eraill ac yn aelodau cyfrifol o gymdeithas.
2. Meithrin hunan ddisgyblaeth, hunan barch a hunan hyder y plant.
3. Darparu cyfle llawn i blant ddatblygu eu doniau, eu talentau a'u diddordebau, i ddod i adnabod eu hunain ac i ddeall rhywbeth am eu gwendidau a'u cryfderau.
4. Sicrhau bod plant yn cael cyfle cyfartal trwy ddarparu ar eu cyfer gwricwlwm sy'n berthnasol, yn wahaniaethol, yn eang a chytbwys gan ddehongli gofynion y cwricwlwm cenedlaethol.
5. Creu yn yr ysgol amgylchedd fydd yn symbylu gwerthfawrogiad o'r cain a'r prydfarth.
6. Meithrin yn y plant falchder at eu bro, eu hiaith a'u gwlad gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymraeg a Chymreig.
7. Creu awyrgylch hapus sy'n seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal rhwng plant a'i gilydd a rhwng athrawon a phlant.
8. Sicrhau bod Polisi Iaith diwygiedig yr Awdurdod yn cael ei weithredu yn effeithiol yng nghyd-destun y cwricwlwm cenedlaethol.
9. Sicrhau cydlynedd a chydbwysedd mewn trefniadaeth a chyrch dulliau dysgu trwy'r ysgol.

3.2 Trefniadaeth a Chwricwlwm

Yn unol a gofynion Deddf Addysg 1986, mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio, ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas a'r cwricwlwm seciwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau presennol yr Awdurdod.

Mae'r cynllun sydd yn cael ei ddefnyddio yn Ysgol Rhiwlas yn seiliedig ar ddogfen Cynllun Strategol Addysg yr Awdurdod Addysg ac yn unol a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gynigir i'r disgyblion yn

cyfarfod â nod ac amcanion yr ysgol. Mae copi o bolisiau cwricwlaidd yr Awdurdod Addysg ar gael yn yr ysgol os yw rhieni yn dymuno eu gweld.

3.3 **Fframwaith Academaidd**

Mae fframwaith academaidd yr ysgol yn seiliedig ar i'r ysgol fod fel un uned teulu bychan sydd wedi ei rannu'n ddosbarthiadau llai, gydag aelod o staff yn gyfrifol am bob dosbarth. Mae'r dosbarthiadau wedi eu rhannu yn ôl oedran y plant. Bydd y staff yn cydweithio'n glos iawn a'i gilydd er mwyn sicrhau dilyniant parhaol yn natblygiad y plant.

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys.

I ymateb a'r gofynion hyn bydd trefniadaeth y dosbarth yn hyblyg; weithiau darperir gwaith ar sail oedran plant, dro arall bydd plant o ystod oedran yn cydweithio ar yr un dasg. Weithiau gwneir yn fawr o arbenigeddau staff unigol fydd yn dysgu ee Addysg Gorfforol, Dylunio a Thechnoleg, Hanes a Daearyddiaeth i bob dosbarth drwy'r ysgol. Yn aml bydd cyfle i blant gydweithio ac artist lleol.

Bydd Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu i holl blant oni nodir yn wahanol gan y rhieni.

3.4 **Dulliau Addysgu**

Defnyddir amrediad o ddulliau addysgu yn yr ysgol, hynny yw addysgir plant mewn dosbarthiadau llawn, fel grwpiau ac fel unigolion. Dylanwadir ar ddewis athrawon o ddulliau addysgu gan ffactorau megis:

- anghenion plant mewn dosbarthiadau
- oedrannau cymysg ac o ieithoedd cymysg
- gallu'r plant
- yr angen i wneud defnydd effeithlon o amser, lle ac adnoddau
- natur gofynion y cwricwlwm cenedlaethol

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol y plant yn ogystal â rhai academaidd. Bydd athrawon yn ystyried y gofynion amrywiol hyn yn ofalus wrth wneud penderfyniadau ynglŷn a'r dulliau addysgu a ddefnyddiant.

Yn unol a gofynion y cwricwlwm cenedlaethol cynllunnir y cwricwlwm ar sail y pynciau craidd a sylfaen.



Pynciau Craidd: Cymraeg, Saesneg (CA2), Mathemateg, Gwyddoniaeth

Pynciau Sylfaenol: Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Hanes, Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol

Pynciau Ychwanegol: Addysg Grefyddol

Er bod pwyslais ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, yr ydym yn ymwybodol iawn fod yna ochr arall bwysig iawn i addysg, ac yn Ysgol Rhiwlas, 'rydym yn cefnogi a gwneud darpariaeth i gadw a chynnal yr arferion da hynny ee cyngherddau, eisteddfodau, mabolgampau a gala nofio dalgylch Bangor/Ogwen, gemau ac ymweliadau ar y cyd.

Polisi Iaith

Ysgol Gymraeg naturiol gydag awyrgylch Gymreig yw Ysgol Rhiwlas. Bydd yr ethos gyffredinol yn rhoi lle amlwg i ddefnyddio'r Gymraeg i amrywiaeth o ddibenion. Gweithredir yn unol a pholisi iaith Awdurdod Addysg Gwynedd ac a pholisi iaith dalgylch Ysgol Dyffryn Ogwen - ysgol uwchradd y dalgylch.

Cyfnod Sylfaen

Fe ystyrir y cyfnod hwn fel cyfle i drwytho'r plant yn y Gymraeg. Y prif nod yw meithrin eu meistrolaeth o'r iaith. Bydd llawer o'r pwyslais ar y llafar ond bydd profiad gyda llythrennedd yn rhan anhepgor o'r dysgu hefyd. Bydd angen i athrawon fod ag ymwybyddiaeth sensitif o anghenion pob unigolyn. Sicrheir, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Bydd adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin. Y Gymraeg yw cyfrwng dysgu ar draws y cwricwlwm yn ystod y blynyddoedd hyn. Unwaith eto, bydd angen i athrawon fod yn sensitif i anghenion pob unigolyn. Pan fo'r angen caiff dysgwyr y Gymraeg yn CA1 gefnogaeth arbennig.

Cadarnheir a datblygir mamiaith y plentyn o ddysgwr Cymraeg ac ymestynnir gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Iau

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Cynigir darpariaeth arbennig ar gyfer newydd-ddyfodiaid di-Gymraeg mewn Uned Iaith yng Nghanolfan Iaith Maesincla.

Bydd y Pennaeth, mewn ymgynghoriad a'r Corff Llywodraethu, yn paratoi ac adolygu'n rheolaidd y ddogfen sy'n datgan sut mae'r ysgol yn bwriadu gweithredu polisi iaith yr Awdurdod Addysg.

Polisi Addysg Rhyw –Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Nod yr ysgol wrth gyflwyno addysg rhyw i blant yw eu paratoi i ymdopi a her gorfforol ac emosiynol tyfu'n hyn a rhoi dealltwriaeth elfennol o atgynhyrchu dynol.

Mae'r Llywodraethwyr wedi mabwysiadu polisi lle cyflwynir addysg rhyw yn rhan o addysg iechyd ac addysg bersonol pob plentyn yn yr ysgol. Ni fydd yn cael ei ynysu fel pwnc ar ben ei hun, ond yn hytrach caiff ei integreiddio i gwricwlwm yr ysgol.

Dylech ymgynghori a'r pennaeth os ydych am weld polisi addysg rhyw yr ysgol neu os y dymunech weld y deunyddiau addysgu a ddefnyddir gyda'r plant. Mae'r ysgol yn parhau hawliau rhieni i atal eu plant rhag mynychu gwersi addysg rhyw os y dymument.

Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Nod polisi'r ysgol yw sicrhau cyfle cyfartal, yn gwricwlaidd ac yn gymdeithasol, i blant cyn belled a bo hynny yn ymarferol bosibl, gan roi cyfle i bob plentyn ddatblygu i'w lawn botensial a gweithio'n hyderus o fewn ei allu.

Gwneir darpariaeth arbennig i'r plant rheini sydd ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Caiff y plant sydd ar gyfnodau cymorth gan yr ysgol gymorth ychwanegol rheolaidd gan gymhorthyddion AAA a darperir rhaglen waith unigol ar eu cyfer. O fewn y sefyllfa ddosbarth manteisir ar bob cyfle i osod tasgau gwahaniaethol ac i roi sylw ychwanegol iddynt.

Mae croeso i rieni weld polisi Anghenion Addysgol Arbennig yr ysgol os y dymument.

Disgyblion ag Anabledau

Ystyriwn fod cysylltiad agos a rhieni a'r Awdurdod Addysg yn bwysig iawn yn yr achosion hyn ac ymdrechir i sicrhau partneriaeth weithio agos. Trafodir natur yr anawsterau, manylir ar y ddarpariaeth ar gyfer plentyn unigol ac adolygir y sefyllfa'n rheolaidd.

Darpariaeth Gwasanaeth Llyfrgell

Mae gan yr ysgol gytundeb gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell sy'n sicrhau bod y fan lyfrgell yn ymweld â'r ysgol unwaith y tymor. Bydd cyfle i'r plant fenthyca a chyfnewid llyfrau yn rheolaidd.



Plant Dawnus

Os y cyfyd achosion o blant dawnus bydd yr ysgol yn Paratoi ar eu cyfer yn unol a gofynion yr Awdurdod.

Addysg Grefyddol

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol penodol.

Yn unol ag adran 2(i) Deddf Addysg 1988 a Deddf Addysg 1993, mae'n rhaid darparu Addysg Grefyddol ar gyfer yr holl blant yn ysgolion yr Awdurdod. Y mae gan rieni hawl i eithrio eu plant os y dymunant. Mewn achos o'r fath byddai'r ysgol yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer y plant hyn. Y mae'r addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod ac yn adlewyrchu'r ffaith mai'r traddodiad Cristnogol yw prif draddodiad Cymru er y rhoddir sylw i natur y prif grefyddau eraill.

Ceir gweithred o gydaddoliad, unai yn y dosbarth neu fel ysgol gyfan yn ddyddiol. Gwneir trefniadau arbennig ar gyfer disgyblion nad ydynt yn mynychu'r gwasanaethau.

Gwahoddir cynrychiolwyr o'r eglwysi lleol yn rheolaidd i arwain gwasanaethau boreol.

Asesu a chofnodi cynnydd plant

Drwy gydol y cyfnod addysgol (o 3 i 11 oed), bydd datblygiad pob plentyn, yn gymdeithasol ac addysgol, yn cael ei fesur a'i gofnodi.

Bydd hyn yn ogystal âg asesiad athro ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 ac asesu athro yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol a'r profion statudol.

Os dengys asesiad unrhyw wendidau, byddwn yn gwahodd y rhieni i'r ysgol i drafod, a'n bwriad yw canfod gwendidau cyn iddynt ddatblygu'n broblemau. Ond, pan ddengys yr asesiad gynnydd pendant byddwn yn hysbysu'r rhieni o hynny hefyd.

CYSWLLT A'R CARTREF

4.1 Cyswllt a'r Cartref

Ni all yr ysgol hon lwyddo heb gefnogaeth rhieni. Yr ydym, felly, yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn eu gwaith ac yn y gweithgareddau cyhoeddus. Sefydli'r cytundeb ysgol/cartref ffurfiol rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae hefyd nifer o lawlyfrau poced i rieni ar gael yn nerbynfa yr ysgol sydd yn cynnwys gwybodaeth amrywiol am yr ysgol.

4.2 Trefniadau ymweld a'r ysgol

Mae croeso i rieni ymweld â'r ysgol i drafod gwaith neu ddatblygiad eu plentyn gyda'r pennaeth neu'r athrawon dosbarth. Fodd bynnag, mae'n bwysig iddynt fod yn ymwybodol fod y pennaeth a chyfrifoldeb dosbarth, ac felly, byddai gwneud trefniant ymlaen llaw, trwy nodyn neu alwad ffon, yn caniatáu mwy o amser ar gyfer trafodaeth. Trwy drefniant arbennig, a rhybudd o 5 diwrnod, mae hawl i'r rhieni weld dogfennau'r ysgol.

4.3 Gwaith Cartref

Darllen

Sefydlwyd trefn darllen ar y cyd yn yr ysgol er mwyn sicrhau bod plant yn cael cyfle i ddarllen yn rheolaidd gyda'i rhieni. Mae darllen ar y cyd yn atgyfnerthu'r ffordd y mae'r athro/athrawes yn dysgu darllen, pa ddull bynnag a ddefnyddir. Dibynnir ar gefnogaeth rhieni i annog eu plant i ddarllen yn rheolaidd yn y cartref. Darperir canllawiau a thafleuni darllen pwrpasol a gwahaniaethol ar gyfer cynorthwyo rhieni i ddatblygu hyfedredd darllen eu plant.

Yn ogystal â darllen, gosodir gwaith cartref yn rheolaidd i blant CA2. Gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant.

Ambell dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni a pherthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno i gydweithredu.

O dro i dro fe all athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu rhyw wendid neu ganolbwytio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn i wneud y gwaith.

4.5 Y Drefn Gwyno

Gellir ymdrin a chwynion yn sydyn ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r athro/athrawes ddosbarth yn y lle cyntaf ac yna y prifathro os na ellir cael cytundeb. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno cwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Atodiad/Appendix

canlyniadau yr ysgol 2017 results /2017 comparative results

Cyfnod Sylfaen / Foundation Stage

Pwnc / subject	Ysgol / School	Cymru/Wales 2017
Cymraeg/Welsh	75%	90.9%
Mathemateg/Maths	75%	90.3%
Personol/Personal	100%	94.7%

Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2

Pwnc / subject	Ysgol / School	Cymru/Wales 2017
Cymraeg/Welsh	100%	91.6%
Saesneg/English	100%	91.1%
Mathemateg/Maths	100%	91.6%
Gwyddoniaeth/Science	100%	92.2%